## CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

---

**COFNODION CYFARFOD MIS EBRILL 2023**

**1 CROESO**
Cofnodion cyfarfod misol rheolaidd y Cyngor nos Fercher y 12fed o Ebrill am 7yh yn Y Ganolfan, Llanberis. Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd Llinos Haf Pritchard.

**2 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Gwilym Evans, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Nia Jones, Cyng. Kim Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard (Cadeirydd),
***Ymddiheuriadau:*** Iwan Harding, Louise Price
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher yr 8fed o Fawrth, 2023 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: HLJ / RhaG.

**5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
***1. Panel Penodi Clerc:***
Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd i'r Panel gyfarfod Barry Davies. Dywedwyd i'r cyfarfod fod yn un buddiol gyda'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth o waith a phwrpas y Cyngor ynghyd a brwdfrydedd i ymgymryd a'r swydd. Hefyd roedd ganddo brofiad eang tros gyfnod hir o weithio i Gyngor Gwynedd (CG) mewn swydd o gryn gyfrifoldeb ac mae wedi bod yn weithgar yn y gymuned ac wedi byw yn Llanberis ers blynyddoedd maith. Argymhelliad y Panel oedd penodi Barry Davies i swydd Clerc. Cynnig ac eilio: IO / EB.
Penderfynwyd fod y Cyngor yn darparu gliniadur ac argraffydd ar gyfer y Clerc newydd, ac awgrymwyd y dylid ystyried rhaglen gyfrifiadurol ar gyfer trin yr ochr ariannol.
Cytunodd DT i weithio efo BD am gyfnod o leia ddau fis er mwyn trosglwyddo'r awennau.
***2. Llwybr Pren Nantucha':***
Er i'r Clerc ysgrifennu at un o brif swyddogion CG am gyflwr difrifol a pheryglus y llwybr ddaeth dim ateb mewn pryd ar gyfer y cyfarfod.
***3. Cyrsiau Cynghorwyr:***
Adroddwyd fod tri cynghorydd arall, Cyng. KJ, IO a HS wedi mynychu un o gyrsiau Un Llais Cymru ULlC) ac EB wedi bod ar gwrs yn ymwneud a chynllunio cymunedol gan Cymorth Cynllunio Cymru. Yn ôl y merched roedd y cwrs yn un a oedd braidd yn elfennol gyda hyfforddwr yn darllen llawer o'r deunydd a oedd eisioes ar y sgrin. Roedd nifer oedd ar y cwrs yn gynghorwyr newydd ac yn bur anwybodus. Cafwyd cwyn hefyd nad oedd ULlC yn cynnig llawer o gyrsiau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, un allan o dros ddeugain cwrs gan ULlC yn mis Ebrill oedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigiwyd fod y Clerc yn anfon gair at y corff i holi pam fod cyn lleied o gyrsiau Cymraeg ac i nodi ymateb mynychwyr y cwrs.
Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc fod 4 o gynghorwyr yn dal heb gwblhau unrhyw gwrs yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ddiwedd Mawrth. Eleni mae disgwyl i bob aelod gwblhau dau gwrs yr un. Dywedodd NJ ei bod hi a LP yn gobeithio mynd ar gwrs 'Côd Ymddygiad' cyn diwedd Ebrill, ac roedd EB hefyd a diddordeb mewn cwrs arall. Roedd y Clerc eisioes wedi rhannu rhestr y cyrsiau ar ebost cyn y cyfarfod, ychwanegodd ei fod yn barod i gysylltu ac ULlC ar ran yr aelodau i drefnu cyrsiau.
***4. Gwaith Ffordd - National Grid a Morgan Sindall:***
Mynegodd y Clerc siom nad oedd cwmni National Grid wedi cytuno i ddod i gyfarfod y Cyngor i drafod y gwaith ffordd a'r rhwystredigaethau lleol oherwydd hynny. Yn amlwg roedd y cwmni yn anhapus o ddeall y gallai'r cyhoedd fod yn bresennol er i'r Clerc wedi cynnig y gellid anfon cynrychiolydd i gyfarfod caeedig. Cytunwyd i hynny ac estyn gwahoddiad arall ar gyfer y cyfarfod nesaf yn mis Mai. Cynnig ac eilio: KJ / TT.

Mynegodd nifer o aelodau eu hanfodlonrwydd gyda agwedd y cwmni, gan fynegi eto fod yna deimlad yn lleol nad oeddynt yn gwrando. Dywedodd KJ fod CG wedi mynnu fod y gwaith yn cael ei atal dros y Pasg, ac mae hynny wedi golygu bythefnos heb oleuadau traffig. Mae trafodaethau ar y gweill i wneud yr un peth yn mis Awst.

***5. Cymdeithas Pysgota Seiont, Gwyrfai a Llyfni - chwyn Llyn Padarn:***

Eglurodd y Clerc er iddo ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a CG ynglyn a'r planhigyn ymwthiol - *Lagarosiphon major* yn Llyn Padarn nad oedd eto wedi cael ateb ynglyn a'r pryderon am ymlediad y planhigyn yma. Roedd CNC wedi cydnabod derbyn y llythyr gan nodi eu bod yn gwneud ymholiadau yn fewnol ac y byddai ateb llawn yn fuan.

**6 MATERION ERAILL:**

***1. Gwaelod Llwybr yr Wyddfa (Maes Derlwyn):***

Dywedodd y Cyng. KJ iddi gysylltu ar frys a CG ar ôl deall i rywun syrthio gan fod twll ger y Grid Gwartheg.

***2. Y Fynwent:***

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y Fynwent yn brysur lenwi a bod yn rhaid ystyried o ddifri beth i'w wneud ar gyfer y dyfodol. Penderfynwyd neilltuo amser i drafod y mater yn y cyfarfod nesaf. Anogwyd yr aelodau i ystyried y posibiliadau ar gyfer sicrhau tir yn Llanberis neu Nantperis.

***3. Holiadur Parc Padarn:***

Addawodd KJ rannu'r Holiadur a ddaeth yn ddiweddar gan apelio ar i bawb ei lenwi er mwyn rhoi arweiniad i'r rheolwyr am deimladau lleol ynglyn a'r Parc.

***4. Palmant ger Bron Eryri, Nantperis:***

Adroddwyd fod coed yng ngardd Bron Eryri yn tyfu allan ac yn rhwystr i'r palmant a'u bod angen eu tocio.

***5.Incwm Meysydd Parcio:***

Yn ôl un o swyddogion CG mae disgwyl incwm o dros £8,600 o feysydd parcio y Cyngor, (sef 10% o'r cyfanswm llai costau). Bydd mwy na'i hanner yn mynd yn gyfraniad tuag at gadw'r tri toiled ar agor trwy'r flwyddyn. Gofynnwyd i'r Clerc holi o ba rai o feysydd parcio CG yr oedd y cyfraniad y dod i'r Cyngor Cymuned.

**7 GOHEBIAETH:**

***1. CG - Tîm Tacluso:***

Yn ddiweddar trefnwyd timau tacluso gan CG, ond dim ond y Cynghorydd lleol sydd a'r hawl i ofyn am eu cymorth. Rhoddwyd yr argraff yn wreiddiol y gallai cynghorau cymuned yn ogystal a'r Cynghorydd lleol fod yn tynnu sylw at flerwch neu sbwriel oedd wedi ei adael, ond nid felly y mae. Unrhyw gwynion i KJ a hithau wedyn i benderfynu os oes angen galw'r Tîm Tacluso allan.

***2. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:***

Cais am i nifer o swyddogion gael ymweld a'r Cyngor i drafod nifer o faterion, e.e Cronfa Gymunedol Eryri, llesiant yn y gymuned a'r cynllun gwirfoddoli 'Caru Eryri'. Byddai hynny yn golygu tri o swyddogion. Penderfynwyd estyn gwahoddiad iddynt ddod i gyfarfod mis Mehefin. (Dyddiad: 14.06.2023).

***3. Tîm Achub Mynydd Llanberis:***

Cafwyd gwahoddiad i aelodau'r Cyngor i ymweld a chanolfan y Tîm yn Nantperis oddi wrth gadeirydd Ymddiriedolwyr Elusen Tîm Achub Mynydd Llanberis. Tra'n gwerthfawrogi'r gwahoddiad nid oedd yr aelodau yn teimlo fod yr ymweliad yn berthnasol i'w gwaith fel Cynghorwyr. Yn naturiol mae'r aelodau yn ymwybodol o'r gwaith a wneir gan yr aelodau. Yn y cyfamser cafwyd cwyn fod un os nad mwy o gerbydau'r tîm wedi eu gweld yn gyrru'n wyllt ar hyd Rhes Fictoria. Tra'n ymwybodol fod y criw yn ymateb i alwad brys, dywedwyd nad ydi'r eiliadau a enillir trwy oryrru ddim yma nac acw, a phe bai damwain byddai mwy nag un argyfwng.

***4. Caffi Trwsio:***

Llythyr yn nodi fod bwriad i sefydlu Caffi Trwsio lle byddai gwirfoddolwyr yn trwsio gwahanol offer. Mae'r llythyr yn cynnwys poster ac apel am wirfoddolwyr ar gyfer y caffi a sefydlir yn Llanrug. Y bwriad ydi lleihau gwastraff ac arbed arian. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Goffa Llanrug rhwng 10 ac 1 ar Fehefin 17eg. Mwy o fanylion gan Lowri Hedd Vaughan. Ebost: *lowri@deg.cymru neu 07850 352 478*

***5. Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol Dyffryn Peris:***

Mae cynllun newydd ei gyhoeddi gan wirfoddolwyr GwyrddNi sy'n cynnig syniadau sut i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Copi ar gael trwy Lowri ar yr ebost uchod. Cafwyd cais hefyd ganddi i gael dod i gyfarfod y Cyngor i son am y datblygiadau diweddara y mae hi wedi bod ynghlwm a nhw, yn arbennig y cynlluniau uchod. Trefnir hynny yn fuan

***6. Trafnidiaeth Cymru: (Transport for Wales)***

Llythyr oddi wrth un o swyddogion TC yn nodi ei fod yn gweithio ar syniadau gyda CG ynglyn a thrafnidiaeth yn

Llanberis a sut i ddatrys rhai o'r problemau ynghlwm a hynny. Syniadau dechreuol sydd ganddo ar hyn o bryd a cais i ddod i drafod y mater gyda'r Cyngor. Roedd KJ, EB a'r Clerc eisioes wedi cyfarfod y swyddog a chlywed am y syniadau bras, ond y teimlad oedd fod angen llawer mwy o gig ar yr asgwrn cyn gwahodd y swyddog i gyfarfod.

**8 CYNLLUNIO:**

**CG:**

**C23/0167/15/DT -** *Estyniad cefn i'r eiddo* **- Padarn View, Llanberis**

Dim sylw.

•**Datgan Buddiant -** NJ

**9 LLWYBRAU / Y FYNWENT:**

Wedi cwynion am eifr yn bwyta blodau yn Y Fynwent roedd y Clerc wedi trefnu i ffens gael ei gosod ar y gornel lle'r oeddynt o bosib yn dod i mewn. Adnewyddwyd hefyd y spring i gau'r giat i'r ffordd ac roedd y fainc wedi ei glanhau a'i thrin ar ôl i rywun ei phaentio yn ddiarwybod i'r Cyngor a chreu llanast.

Awgrymwyd fod angen arwydd i ofyn i ymwelwyr osod eu hen flodau yn y bin, ac i gau y giat.

**10 MATERION ARIANNOL:**

**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Mawrth, 2023**

**Cyfrif Cyfredol**: £19,517.70 **Cyfrif Cadw**: £66.81

**2) Yn y Banc ar yr 31ain o Fawrth, 2023 (diwedd blwyddyn ariannol)**

**Cyfrif Cyfredol**: £19,500.96 **Cyfrif Cadw**: £66.81

**3) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**

**CYFANSWM ... ...£1,768.20**

**4) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/02/2023 a 28/03/2023:**

**CYFANSWM ... ...£1,695.00**

Cynnig ac eilio y materion ariannol: IO / KJ.

**11 ADRODDIADAU ERAILL:**

***1. Grwp Adfywio:***

Cafwyd adroddiad gan y Clerc o gyfarfod diweddar o Grwp Adfywio Llanberis. Trafodwyd Trafnidiaeth a Parc Padarn, yr Amgueddfa, Digwyddiadau, Safle Treftadaeth ac fe nodwyd fod cronfeydd ar fin cael eu hagor i hybu ffyniant bro.

**12 CYFARFOD NESAF:**

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fercher y 10fed o Fai, 2023 am 7.00yh yn Y Ganolfan.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:** Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard Clerc: Dei Tomos

Dyddiad: 10fed o Fai, 2023